Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

**Y TÎM NIWRO-DDATBLYGOL**

**GWEITHGAREDDAU/STRATEGAETHAU I HELPU'R PLENTYN SYDD Â SYSTEM GLYWEDOL DAN-YMATEBOL**



Gall plant sy'n tan-ymateb i wybodaeth gan y system synnwyr Clywedol ei chael yn anodd prosesu gwybodaeth a deall beth sy'n cael ei ddweud neu ei ofyn ganddynt. Mae hyn yn ymwneud yn fwy nag â synnwyr clyw, mae angen i'r plentyn allu gwahaniaethu rhwng synau gwahanol, datgodio synau a chofio beth sy'n cael ei ddweud. Gall y plentyn ymddangos yn gymysglyd neu'n bell ei feddwl. Gallant ddechrau gwneud tasg heb ddeall beth a ddisgwylir ganddynt neu gymryd amser hir i ymateb i gyfarwyddiadau. Yn dilyn mae nifer o strategaethau i helpu'r plentyn i ddatblygu prosesu clywedol.

Gall cyffwrdd y plentyn ar yr ysgwydd cyn rhoi cyfarwyddyd eu helpu i ganolbwyntio. Mae'n bwysig gwybod a yw'r plentyn yn sensitif i gyffyrddiad cyn gwneud hynny.

- Peidiwch â gorlwytho'r plentyn â chyfarwyddiadau sydd yn gymhleth, yn hytrach torrwch nhw i lawr i gamau a rhoi un cyfarwyddyd ar y tro.
- Defnyddiwch ymadroddion byr, clir a chryno ac ailadroddwch gyfarwyddiadau os oes angen.
- Sicrhewch fod y plentyn wedi clywed yn iawn ac wedi deall y cyfarwyddiadau drwy ofyn iddo/iddi eu hailadrodd cyn rhoi cynnig ar y dasg.
- Anogwch y plentyn i edrych arnoch pan fyddwch yn siarad ag ef/hi.
- Os oes modd, symudwch bethau eraill sy'n tynnu sylw'r clyw o'r amgylchedd.
- Rhowch ysgogiadau corfforol neu arddangosiadau i ategu'r cyfarwyddiadau llafar.
- Mae rhai plant yn ymateb yn well i ddull amlsynhwyraidd o roi cyfarwyddiadau h.y. maen nhw'n cael eu hategu gan luniau, symbolau, eitemau, ysgrifen ayb. Yn enwedig os ydynt yn cael eu gadael allan i'r plentyn gyfeirio atyn nhw.
- Lle bo modd, darparwch fan tawel i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth neu amgylchedd cartref swnllyd arall i'r plentyn fynd iddo i ymdawelu.

**Gan Jean Pugh (Therapydd Galwedigaethol)**